



**ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR
8 GORFFENAF 2019**

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Datganiad Llywodraethu ar gyfer Cydbwyllgor GwE

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Derbyn a chymeradwyo y datganiad llywodraethu blynyddol

2.0 Cefndir

2.1 Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2108 yn gosod gofynion penodol ar gyrrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

2.2 Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnis fframwaith i weithrediad y Cyd-Bwyllgor.

3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

4.0 Goblygiadau ariannol

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

5.0 Effaith o ran cydraddoldeb

5.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Goblygiadau Personél

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Atodiadau

8.1 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Rwyf yn fodlon fod y datganiad yn cynnwys disgrifiad priodol o drefniadau llywodraethu GwE

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Drwy ymateb i sawl adolygiad annibynnol o'r gwasanaeth, mae GwE wedi adolygu ei drefniadau llywodraethu yn drwyadl mewn blynyddoedd diweddar. Rwyf yn fodlon fod y datganiad yma yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethu GwE am y flwyddyn 2018/19. Er hynny, mae rôl allweddol a her parhaus i aelodau'r Cyd-bwyllgor i gydweithio er mwyn sicrhau fod GwE yn cyflawni'r cyfrifoldebau'n effeithiol, ac yn mynd ymlaen i ddatblygu'n bositif er budd ysgolion a disgyblion y rhanbarth.